

Cyngor Tref Criccieth

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 7.00yh NOS LUN 13 Ebrill 2015 YN SIAMBR Y CYNGOR TREF.

COPI DRAFFT.

Gweddi Agoriadol.
Cymerwyd y Weddi gan y Cyng. Phil Jones.

Cof;-0104/15 Presennol.

.....
Cadeirydd Cyng. Eirwyn Williams.
Is Gadeirydd Cyng. W A Evans.
Cyng. Wayne Roberts
Cyng. Elisabeth Regan.
Cyng. Phil Jones,
Cyng. Dr E Tudor Jones,
Cyng. R T Price.
Cyng. Henry Jones
Cyng. R Cadwalader
Cyng. Elisabeth George.

Cof;-0204/15 Ymddiheuriadau

.....
Cyng. Dafydd Lloyd, a Siân Williams.

Cof;-0304/15 Datgan Diddordeb.

.....
Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb yn y materion oedd i'w trafod yn y cyfarfod.

Cof;-0404/15 Cadarnhau Cofnodion cyfarfod Mis Mawrth

.....
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mis Mawrth fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r Gyfraith.

Cyngor Tref Criccieth

Cof;-0504/15 Materion yn codi trwy ohebiaeth,
.....

a) Y drefn gynllunio.

Mewn ymateb i e-bost y Cyngor Tref eglurodd swyddog Rheolaeth adeiladu Gwynedd fod sylwadau'r Cyngor Tref ar gais cynllunio 2 uned Wyliau yn Morannedd wedi ei chymryd i ystyriaeth. Mae pob cais cynllunio yn cael ei asesu yn ôl ei deilyngdod ei hun ac yn unol â'r polisiau lleol a chenedlaethol perthnasol oni fyddai ystyriaeth faterol gynllunio yn datgan fel arall. Ystyriwyd fod sylwadau'r Cyngor Tref yn ystyriaethau cynllunio perthnasol ond wrth bwysu a mesur y bwriad ynghyd destun yr holl ystyriaethau daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr ystyriaethau a nodwyd gan y Cyngor Tref yn gorbwysu polisiau lleol a chenedlaethol perthnasol, Gwerthfawrogi'r pryderon y Cyngor Tref ynglŷn â'r achos ond sicrhau y Cyngor fod ei sylwadau wedi derbyn ystyriaeth deilwng wrth asesu'r cais yn anffodus mae materion dylunio yn faterion goddrychol ble mae 'n anorfod fod gwahaniaeth barn.

PENDERFYNIAD;- Yr oedd yr Aelodau yn siomedig iawn nad yw swyddog o'r adran gynllunio yn fodlon cyfarfod y Cyngor i egluro ei benderfyniadau ac am i'r Clerc gysylltu eto a mynnu ei fod yn cyfarfod y Cyngor i roi eglurhad iddynt ar sut yr oedd penderfyniadauauaill yn gôr bwysu penderfyniad y Cyngor, mae hyd yn oed y deunydd y to yn estronol i'r Dref, sut mae caniatáu y fath ddeunyddiau

a) Parcio oddi ar y Stryd.

Yn dilyn ymholiadau'r Cyngor Tref eglurwyd gan Swyddog Parcio Cyngor Gwynedd na fydd unrhyw newidiadau yn cymryd lle cyn trafod ymhellach gyda'r Cyngor.

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth a disgwyl am gyfarfod safle gyda swyddog o Gyngor Gwynedd.

b) Y Gwasanaeth Llyfrgelloedd.

Derbyniwyd ateb i lythyr y Cyngor Tref yn egluro nad oes hyd yma unrhyw benderfyniad wedi ei wneud i gau Llyfrgell Criccieth a bydd ymgynghoriad llawn ac asesiad effaith cyn gwneud penderfyniad terfynol ar strategaeth y gwasanaeth llyfrgell i'r dyfodol. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar opsiynau posibl yn ystod y misoedd nesaf ond pwysleisir na fydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud o ran ble y bydd unrhyw newidiadau yn cael ei gyflwyno a bydd cyfle i drafod a chlywed barn cymunedau fel rhan o'r broses.

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth

Cof;- 0604/15 Ceisiadau Cynllunio.
.....

a) Cais C15/0261/35/LI

Dymchwel adeilad presennol a chodi ty annedd dau lawr.
The Old Store tu cefn i London House.

PENDERFYNIAD;_Dim gwrthwynebiad ar yr amod fod lle priodol oddi ar y stryd i barcio moduron.

Cyngor Tref Criccieth

b) Cais C15/0275/35/LL

Codi adeilad pafiliwn a Gwaith allanol cysylltiedig gan gynnwys ffordd lleiniau parcio, cwrt tennis a llain croquet.

Criccieth Tennis & Squash Club , Lon Fel

PENDERFYNIAD;- Dim gwrthwynebiad.

c) Cais C15/0259/35/LL

Codi anecs un llawr cwfn yn lle'r sied bresennol.

46 Stryd Fawr

PENDERFYNIAD;- Dim gwrthwynebiad.

Ni chymerodd y Cyng. Eirwyn Williams yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd unrhyw ran yn y trafodaethau.penderfyniadau na phleidleisio ar unrhyw un o'r cynlluniau a drafodwyd yn y cyfarfod.

Cof;-0704/15 Prosiect Arosfan Caerdyni..

.....

Nod oedd unrhyw beth pellach i'w drafod ar hyn o bryd gan fod disgwyl am ymateb Cyngor Gwynedd.

Cof;-0804/15 Cofeb ger y Castell.

.....

Tynwyd sylw Aelod o'r Cyhoedd fod y gofeb ger man parcio Gwesty Marine i gofio am y bechgyn a foddwyd yn y môr yn 1951 yn anodd mynd ati i'w darllen, tybed felly a fyddai modd gwella'r lleoliad a rhoi arwydd fod yna gofeb.

PENDERFYNIAD;-Trefnu cyfarfod safle i drafod ymhellach.

Cof;-0904/15 Neuadd Goffa

.....

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ddirprwy Gadeirydd pwyllgor y Gofeb yn y Neuadd Goffa yn gofyn i'r Cyngor

1 Ymestyn y golau Nadolig i gynnwys coeden yng ngardd y Neuadd, byddai'r Neuadd yn gofalu am y trydan.

2 Awgrymu fod y Cyngor yn cynnwys eitem "Neuadd Goffa" yn rheolaidd ar ei rhaglen.

3 Holi a yw'r Cyngor yn yswirio'r Neuadd.

4 Tybed a fyddai'r Cyngor yn ystyried codi peth ar y presept i ofalu fod y Neuadd yn cael cyfraniad rheolaidd yn flynyddol.

PENDERFYNIAD;-Fel a ganlyn

Dim gwrthwynebiad i ymestyn y golau Nadolig i gynnwys y goeden yng ngardd y Neuadd

Dim angen rhestru'r eitem ar raglen y Cyngor gan fod iddynt gynrychiolydd ar y Pwyllgor Rheoli

Nid yw'r Cyngor yn yswirio'r Neuadd

Ni ellir pennu presept yn benodol ar gyfer y Neuadd

Cyngor Tref Criccieth

Cof;-1004/15 Cyfrifon 2014/15

.....

Adroddodd y Clerc fod y cyfrifon wedi ei archwilio ac na chafwyd dim o'i le ynddynt.

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr adroddiad a rhoi hawl i'r Cadeirydd lofnodi'r dogfennau perthnasol a diolch i'r Clerc am ei waith,.

Cof;-1104/15 Bwrdd Hysbysebu i'r "French Commandos"

.....

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Aelod o'r cyhoedd yn gofyn i'r Cyngor ysytried gosod hysbysfwrdd yn rhoi gwybodaeth am "French Commandos"

PENDERFYNIAD;- Yn unfrydol yr oedd yr Aelodau yn gefnogol i hyn ac felly gwahodd y cyfaill i gyfarfod y Cyngor i drafod y mater ymhellach.

Cof;-1204/15 Diffribileiddiwr

.....

Dydd Gwener 27 Mawrth cyflwynwyd i Gadeirydd y Cyngor ddiffribilwr ar gyfer defnydd y cyhoedd mewn argyfwng (gwelir copi o adroddiad y cyflwyniad ar ddiwedd y cofnodion) yn dilyn hyn mae Aelod o'r Cyngor wedi codi amryw o bwyntiau dilys.

Y Cyngor fydd yn gyfrifol am y teclyn o hyn ymlaen felly

1. Tybed beth yw'r cyfrifoldeb cyfreithiol?

2 A'i Cyngor fydd yn gyfrifol am ofalu fod trydan yn parhau, ac na fydd y batris yn rhedeg allan?.

3 Oes oblygiadau ar y Cyngor pe bae person yn cael trawiad ar y galon, a defnyddio'r teclun a dim pŵer ynddo?

PENDERFYNIAD;- Bu peth trafodaeth ar y mater a daeth yr Aelodau i'r penderfyniad gan mai gwirfoddol yw hyn ni fydd oblygiadau cyfreithiol arnynt pe bai diffyg yn yr offer.

Gofynnwyd i'r Clerc holi gydag ysgrifenyddes y pwyllgor codi arain beth yw'r diweddaraf ar ddysgu pobl sut i'w ddefnyddio. Cof;-

1304/15 Cais Cynllunio C15/0146/35/LL

.....

Tynnwyd sylw gan yr ymgeisydd i'r Cyngor Tref gam ddeall y sefyllfa wrth drafod y cais yma yn ei gyfarfod Mis Mawrth, Nid byngalo oedd y cais gwreiddiol rhif C12/1565//35/LL ond cais am ddau annedd 2 lawr a gofynnir felly i'r Cyngor anfon yn ddi-oed at Gyngor Gwynedd yn tynnu ei gwrthwynebiad yn ôl

PENDERFYNIAD. Ymddiheuro i'r cyfaill am gyfeirio at yr adeilad fel byngalos ond serch hynny yn dal o'r farn fod gwrthod y cais yn briodol a gwell fyddai gweld tŷ confensiynol yn cael ei godi.

Cyngor Tref Criccieth

Cof;1404/15 Derbyniadau.

.....
Dim Derbyniadau

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth

Cof;-1504/15 Taliadau

.....

£97.00 Cyllid y Wlad (PAYE)

Siec 100942

£269.00 Un Llais Cymru (Tá; Aelodaeth 2015/16)

100941

PENDERFYNIAD;-Derbyn y wybodaeth a rhoi hawl i'r Clerc dalu'r biliau.

Caeddig

Tendr Llwybrau

Adroddodd y Clerc mai 1 tendr yn unig a dderbyniwyd felly penderfynnwyd ei derbyn.

Cyflog y Clerc.

Bu i'r Cyngor benderfynu rhoi codiad cyflog o 1% i'r Clerc.

Aeth y Cyngor yn ól yn agored

Daeth y Cyngor i ben am;-8.30y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Lun 11 Mai 2015

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 30 Ebrill 2015